TGAU

3010N20-1

DYDD LLUN, 6 MEHEFIN 2022 – PRYNHAWN

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

## UNED 2: Y Nofel

## HAEN SYLFAENOL

1 awr 15 munud a'ch amser estynedig

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

JD*(Z22-3010N20-1-MLP-A3-36)

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

**Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).**

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

**Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.**

**Defnyddiwch yr indecs ar dudalen 4 i ddod o hyd i'r cwestiynau ar y nofel y buoch chi'n ei hastudio.**

**Cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi'ch sylwadau.**

**Ni chaniateir defnyddio geiriaduron na thestunau gosod.**

(Trowch y dudalen)

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

**Mae 40 marc am bob cwestiwn cyfan.**
**Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd y cwestiwn neu ran o gwestiwn.**

**Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.**

**(Trowch y dudalen)**

| NOFELAU | TUDALEN |
|---|---|
| LLINYN TRÔNS (Bethan Gwanas) | 5 |
| BACHGEN YN Y MÔR (Morris Gleitzman Addasiad Elin Meek) | 13 |
| DIFFODD Y SÊR (Haf Llewelyn) | 20 |
| AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR (Alun Jones) | 27 |
| I BLE'R AETH HAUL Y BORE? (Eirug Wyn) | 34 |
| LLYFR GLAS NEBO (Manon Steffan Ros) | 42 |


(Trowch y dudalen)

# LLINYN TRÔNS – BETHAN GWANAS

**1. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a defnyddio enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.**
**(Ystyriwch y marciau a roddir i bob cwestiwn.)**

**1.1 Rhowch 3 rheswm pam mae'r criw wedi mynd i'r gwersyll. [3 marc]**

**1.2 Rhowch 3 rheswm pam nad oedd Gags wedi cysgu yn ei wely ar y noson olaf. [3 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

**1.3** **Ysgrifennwch hanes y criw yn ystod y noson olaf cyn i Gags adael y gwersyll.**
**Esboniwch beth sy'n digwydd yn llawn.**
**Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen.**
**[10 marc]**

**1.4** **Dewiswch gymeriad NAD ydych yn ei hoffi.**
**Esboniwch pam nad ydych yn hoffi'r cymeriad.**
**Ysgrifennwch BORTREAD o'r cymeriad gan roi enghreifftiau o sut mae'n ymddwyn.** **[6 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

**1.5 Darllenwch y darn a gymerwyd o LLINYN TRÔNS ar dudalennau 9 – 12.**

**a) Edrychwch ar arddull y rhan hon o linellau 53 – 54 yn y darn.**

**Yna taflodd ei hun fel sach o datws at Gags...**

**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

**b) Edrychwch ar arddull y rhan hon o linellau 71 – 72 yn y darn.**

**…a'u hwynebau'n wyn efo'r sioc a'r oerni sydyn.**

**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

(Trowch y dudalen)

**1.5 c)**

**Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.**

- **Dyfynnwch y nodwedd.**
- **Enwch y nodwedd.**
- **Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4 marc]**

**1.6 Ysgrifennwch ADRODDIAD PAPUR NEWYDD yn dilyn y newyddion am farwolaeth Gags.**
**Cofiwch sôn am ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â hyn.**
**Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen.**

**[10 marc]**

**[40 MARC]**

**(Trowch y dudalen)**

Gwenodd Olwen, a chyn pen dim, roedd hi’n cerdded dros flaen canŵ Mr Pecs a finnau ac yn mynd rownd gan chwerthin. Ella bod ganddi goesau hyll, ond mae ganddi gyts. Pan gamodd hi ar flaen canŵ Dei, mi waeddodd hwnnw nerth ei ben. Roedd o reit isel yn y dŵr fel roedd hi, ond efo pwysau ychwanegol Olwen, roedd ei gocpit o dan yr wyneb! Ond cyn pen dim, roedd Olwen yn ôl yn ei chanŵ. Mi gododd Dei ei ddwylo i glapio nes i Nobi roi bloedd arno fo.

“Paid â gollwng y blydi canŵ, y pen rwdan!”

“O ia, mae’n ddrwg gen i.”

“Wel?’’ gwenodd Donna. “Mae ’na ferch yn gallu ei ’neud o…”

“Ocê, ocê…” chwyrnodd Nobi. “Ty’d ’ta, Llinyn Trôns. Ac os ’nei di rwbath o’i le, mi fyddi di’n canu soprano am weddill dy oes.”

(Trowch y dudalen)

Felly dyma ni'n dau'n codi'n ofalus. Roedd 'na bedwar canŵ rhyngom ni. Taflodd Nobi ei hun ar ei fol dros ganŵ Dei, ac mi saethodd blaen hwnnw am waelod y llyn.

"Hei!" sgrechiodd Dei. "Callia'r lembo gwirion!"

Ond roedd Nobi wedi dychryn mwy na fo, ac roedd o wedi hyrddio'i hun ar Gwenan, a honno'n sgrechian mwrdwr. Yn y cyfamser, ro'n i'n sefyll ar gefn canŵ Olwen ac yn trio gweithio allan a fyddai canŵ Gwenan yn gallu dal fy mhwysau i yn ogystal â Gwenan a Nobi.

"Paid ti â meiddio!" rhuodd Nobi.

Ro'n i'n cael mwynhad mawr o weld yr ofn ar ei wyneb o, felly mi wnes i roi cam fach sydyn ar gefn canŵ Gwenan a neidio ar gefn un Dei a llithro i mewn i ganŵ gwag Nobi.

(Trowch y dudalen)

"Da iawn, Llion!" chwarddodd Donna. "Ty'd Nobi, ti ar ei hôl hi."

Anadlodd hwnnw'n ddwfn, cyn cropian yn ofalus dros ganŵ Olwen, yna un ei hoff athro a cheisio gweithio allan sut i fynd i mewn i 'nghanŵ i. Gafaelodd ym mhen Tecs – "Sori, syr" – nes roedd hwnnw'n gwingo, a cheisio rhoi ei droed dde yn y cocpit. Yna taflodd ei hun fel sach o datws at Gags ac mi darodd ei ben-glin yr ochr lle'r oedd llaw Gags yn gafael yn dynn. Gwaeddodd hwnnw mewn poen a gollwng y canŵ'n syth. O fewn hanner eiliad, roedd Gags wedi gwahanu o'r rafft, ac roedd breichiau Nobi wedi mynd efo fo. Yn anffodus, roedd traed hwnnw'n dal yn y canŵ arall, a Tecs yn gafael yn yr ochr fel gelan. Roedd corff Nobi'n pontio'r gwagle rhwng y ddau ganŵ,

(Trowch y dudalen)

a'r gwagle hwnnw'n mynd yn fwy o hyd, a'r ddau foi yn rhuo ar ei gilydd. Yn sydyn, roedd Nobi ar ei hyd yn y dŵr ac wedi troi Gags drosodd efo fo. Am ryw reswm, aeth Tecs i mewn hefyd. Daeth y tri i'r wyneb fel pysgod aur, a'u hwynebau'n wyn efo'r sioc a'r oerni sydyn.

(Trowch y dudalen)

# BACHGEN YN Y MÔR – MORRIS GLEITZMAN (ADDASIAD ELIN MEEK)

**2. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a defnyddio enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion. (Ystyriwch y marciau a roddir i bob cwestiwn.)**

**2.1 Rhowch 3 rheswm pam mae Jamal a'i deulu wedi gorfod gadael eu cartref. [3 marc]**

**2.2 Rhowch 3 rheswm pam nad oedd Jamal a Bibi wedi mynd ar yr un llong â'u rhieni. [3 marc]**

(Trowch y dudalen)

**2.3** **Ysgrifennwch hanes Jamal a Bibi gyda'r smyglwyr a'r môr-ladron ar fwrdd y llong.**
**Esboniwch beth sy'n digwydd yn llawn.**
**Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen.**
**[10 marc]**

**2.4** **Dewiswch gymeriad NAD ydych yn ei hoffi.**
**Esboniwch pam nad ydych yn hoffi'r cymeriad.**
**Ysgrifennwch BORTREAD o'r cymeriad gan roi enghreifftiau o sut mae'n ymddwyn.** **[6 marc]**

(Trowch y dudalen)

**2.5 Darllenwch y darn a gymerwyd o BACHGEN YN Y MÔR ar dudalennau 17 – 19.**

**a) Edrychwch ar arddull y rhan hon o linellau 20 – 21 yn y darn.**

**Dw i eisiau rhoi gwaedd fel rhyfelwr…**

**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

**b) Edrychwch ar arddull y rhan hon o linellau 62 – 65 yn y darn.**

**Maen nhw'n syllu ar rywbeth y tu ôl i mi. Mae eu hwynebau wedi'u rhewi.**
**Maen nhw'n gegrwth. Maen nhw'n syfrdan.**

**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

(Trowch y dudalen)

**2.5 c)**

**Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.**

- **Dyfynnwch y nodwedd.**
- **Enwch y nodwedd.**
- **Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4 marc]**

**2.6 Ysgrifennwch ADRODDIAD PAPUR NEWYDD yn dilyn y digwyddiadau yn y stadiwm yn y ddinas.**
**Cofiwch sôn am ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â hyn.**
**Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen.**

**[10 marc]**

**[40 MARC]**

**(Trowch y dudalen)**

Y cyfan sydd angen ei wneud yw curo Yusuf, y gôl-geidwad a'r dyfarnwr.

Mae Yusuf yn ei gwrcwd rhwng dau bentwr o rwbel. Mae'n cadw ei lygaid ar y bêl wrth fy nhraed.

'Draw fan hyn, Jamal,' sgrechia Zoltan, sydd hefyd yn nhîm Manchester United. 'Pasia.'

Dyna fyddwn i'n ei wneud fel arfer. Dw i'n enwog am basio. Gofyn i unrhyw un o'r saith plentyn yn yr ysgol. 'Mae Jamal yn dda am ddriblo,' meddent, 'ac yn basiwr arbennig o dda.' Taswn i'n cael taflegryn heb ffrwydro am bob gôl dw i wedi'i rhoi ar blât i bobl eraill, byddwn yn gallu dechrau busnes metel sgrap.

Ond y tro hwn dw i eisiau sgorio fy hunan. Dw i eisiau rhoi gwaedd fel rhyfelwr a chicio'r bêl nerth fy nhraed a'i gwylio'n gwibio heibio i Yusuf fel

(Trowch y dudalen)

taflegryn Scud.

Dim ond unwaith.

‘Jamal,’ sgrechia Zoltan, gan godi a gostwng ei freichiau fel bwncath â bola tost. ‘Draw fan hyn.’

Dw i’n ei anwybyddu. Dw i’n penderfynu saethu’n isel a cheisio gwyro’r bêl. Mae’n rhaid i ti feddwl am rywbeth gyda Yusuf yn y gôl. Mae’n dda am achub y bêl, yn enwedig o gofio mai dim ond un goes sydd ganddo.

Dw i’n gallu clywed Aziz a Mussa’n cau amdanaf.

Dw i’n ymbaratoi ac yn saethu.

Anobeithiol.

Dw i wedi’i sleisio hi. Yn union fel y tro diwethaf. A phob tro cyn hynny.

Mae’r bêl yn mynd yn araf bach tuag at Yusuf. Dyw e ddim hyd yn oed yn esgus ’mod i wedi’i tharo hi’n dda. Dyw e ddim yn cwympo arni na dim.

(Trowch y dudalen)

Y cyfan mae'n ei wneud yw codi'r bêl a'i thaflu'n ôl dros fy mhen.

'Ymdrech wael.' Mae Aziz yn chwerthin y tu ôl i mi.

Mae Zoltan yn edrych arna i fel petai bom Americanaidd wedi taro fy mhen a drysu fy ymennydd.

'Jamal!' medd Zoltan. 'Doedd neb yn fy marcio i!'

'Sori,' meddaf, gan aros iddo fe ac Aziz a Mussa wneud sylw cas am chwaraewyr canol cae sy'n meddwl eu bod nhw'n saethwyr ond dydyn nhw ddim.

Ond dydyn nhw ddim yn dweud dim.

Does neb yn dweud gair.

Dw i'n sylweddoli nad ydyn nhw'n edrych arna i, hyd yn oed. Maen nhw'n syllu ar rywbeth y tu ôl i mi. Mae eu hwynebau wedi'u rhewi. Maen nhw'n gegrwth. Maen nhw'n syfrdan.

(Trowch y dudalen)

## DIFFODD Y SÊR – HAF LLEWELYN

**3. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a defnyddio enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.**
**(Ystyriwch y marciau a roddir i bob cwestiwn.)**

**3.1 Nodwch 3 pheth sydd wedi digwydd i Gruff Wmffra. [3 marc]**

**3.2 Nodwch 3 pheth sy'n dangos bod Anni yn ofergoelus. [3 marc]**

(Trowch y dudalen)

**3.3 Ysgrifennwch hanes y teulu yn derbyn y newyddion am farwolaeth Ellis.**
**Esboniwch beth sy'n digwydd yn llawn.**
**Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen.**
**[10 marc]**

**3.4 Dewiswch gymeriad NAD ydych yn ei hoffi.**
**Esboniwch pam nad ydych yn hoffi'r cymeriad.**
**Ysgrifennwch BORTREAD o'r cymeriad gan roi enghreifftiau o sut mae'n ymddwyn. [6 marc]**

(Trowch y dudalen)

3.5 Darllenwch y darn a gymerwyd o DIFFODD Y SÊR ar dudalen dudalennau 24 – 26.

a) Edrychwch ar arddull y rhan hon o linellau 16 – 17 yn y darn.

**Craffais. Fedrwn i ddim methu'r siôl ffwr.**

Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]

b) Edrychwch ar arddull y rhan hon o linellau 23 – 25 yn y darn.

**Chwarddodd Jim bach wedyn wrth weld y jariau llawn pethau da yn rhesi lliwgar…**

Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]

(Trowch y dudalen)

**3.5 c)**

**Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.**

- **Dyfynnwch y nodwedd.**
- **Enwch y nodwedd.**
- **Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4 marc]**

**3.6 Ysgrifennwch ADRODDIAD PAPUR NEWYDD yn dilyn priodas Lora a Hywel.**
**Cofiwch sôn am ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â hyn.**
**Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen.**
**[10 marc]**

**[40 MARC]**

**(Trowch y dudalen)**

Nodiais a gwenu, a chymryd llaw arall Jim bach. Roedd o wrth ei fodd yn codi ei draed ac yn crafu blaen ei sgidiau yn y cerrig, a ninna'n hanner ei gario fo rhyngddon, ac yn ei godi wedyn i roi swing iddo, a fynta'n gweiddi chwerthin. Mi faswn i'n licio bod fel Jim bach, yn medru gweiddi chwerthin fel'na, heb ddeall dim am y byd a'i bethau.

Canodd cloch y siop. Roedd Jim bach yn dal i chwerthin wrth i Enid a minna gamu i mewn i dywyllwch y siop fach. Roedd rhywun yno o flaen y cowntar yn sgwrsio efo Mrs Lloyd. Craffais. Fedrwn i ddim methu'r siôl ffwr. Aeth cryndod i lawr fy nghefn wrth i lygaid bach duon y llwynog rythu i fyw fy llygaid inna.

Trodd Gwen Jones i edrych arnon ni, a gwyro'i phen. Edrychodd ar Jim bach a fedrwn i ddim dirnad yr olwg

(Trowch y dudalen)

yn ei llygaid. Chwarddodd Jim bach wedyn wrth weld y jariau llawn pethau da yn rhesi lliwgar, a rhuthrodd draw at y cowntar a rhoi gwên i Mrs Lloyd. Safodd Gwen Jones i'r naill ochr fel 'tai hi ofn iddo fynd ar ei thraws.

"Sut ydach chi'ch tri bach?" meddai Mrs Lloyd yn gynnes fel arfer. "Un o'r rhain, ia Jim?" meddai gan godi caead y jar licrish ac estyn un i Jim. Chwarddodd hwnnw a stwffio'r licrish i'w geg, nes roedd o'n glafoerio, a'r poer yn rhedeg i lawr ei ên.

"Nefoedd yr adar…" sniffiodd Gwen Jones, fel tasa'r olygfa yn codi pwys arni. Brysiais i sychu ceg Jim bach efo fy hances nes bod honno'n wlyb socian, ond doeddwn i ddim am i Gwen Jones gael cyfle i ddweud wrth neb nad oedden ni'n gofalu amdano'n iawn.

"Felly," meddai Gwen Jones,

(Trowch y dudalen)

a hanner gwên ar ei hwyneb, “ac mi aeth Ellis yr Ysgwrn bore ’ma glywis i?”

Trodd y llygaid llwynog hefyd i fy herio. Yna, daeth Mrs Lloyd rownd ymyl y cownter, a’i dwylo’n plycio ymyl ei ffedog yn bryderus.

“Ellis? Dydi Ellis druan ’rioed wedi gorfod mynd i ffwrdd?” holodd Mrs Lloyd. Mae’n amlwg nad oedd hi wedi clywed y newyddion. “Wel, dyna ni eto, be wnawn ni heb Ellis o gwmpas y lle yma, deudwch… pwy fydd yn arwain yn y cyngerdd wythnos nesa, felly? A be am ei waith barddoni fo… a’ch tad druan, fedar o wneud heb Ellis, deudwch?” holodd yr hen wraig, a golwg drist ar ei hwyneb.

“Mae’r hen ryfal ’ma’n dwyn ein pobol ifanc ni bob yn un…” meddai hi wrthi ei hun yn fwy na neb, a throi i roi’r jar licrish yn ei hôl gan ddwrdio ac ysgwyd ei phen yn ddigalon.

(Trowch y dudalen)

# AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR – ALUN JONES

**4. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a defnyddio enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.**
**(Ystyriwch y marciau a roddir i bob cwestiwn.)**

**4.1 Nodwch 3 pheth sy'n cysylltu Richard Jones â Now Tan Ceris.**
**[3 marc]**

**4.2 Nodwch 3 rheswm pam ei bod mor anodd i Richard Jones gael gafael ar y gemau. [3 marc]**

(Trowch y dudalen)

**4.3** **Ysgrifennwch hanes Meredydd ar ôl iddo ddychwelyd adref o'r carchar.**
**Esboniwch beth sy'n digwydd yn llawn.**
**Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen.**
**[10 marc]**

**4.4** **Dewiswch gymeriad NAD ydych yn ei hoffi.**
**Esboniwch pam nad ydych yn hoffi'r cymeriad.**
**Ysgrifennwch BORTREAD o'r cymeriad gan roi enghreifftiau o sut mae'n ymddwyn.** **[6 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

**4.5 Darllenwch y darn a gymerwyd o AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR ar dudalennau 31 – 33.**

**a) Edrychwch ar arddull y rhan hon o linellau 12 – 13 yn y darn.**

**Cododd golau bychan coch tua phum llath o'i flaen…**

**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

**b) Edrychwch ar arddull y rhan hon o linellau 43 – 44 yn y darn.**

**Yr oedd fel dyrnu sachaid o goed tân.**

**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

(Trowch y dudalen)

4.5 c)

Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.

- Dyfynnwch y nodwedd.
- Enwch y nodwedd.
- Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4 marc]

4.6 Ysgrifennwch ADRODDIAD PAPUR NEWYDD yn dilyn marwolaeth Richard Jones.
Cofiwch sôn am ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â hyn.
Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen.
[10 marc]

[40 MARC]

(Trowch y dudalen)

Cerddodd Gareth i fyny'r ffordd am dipyn cyn dringo dros y gwrych uchel i'r cae. Nid oedd neb o'r Cyngor Sir wedi morol am dorri'r gwrych, ac yr oedd tyfiant trwchus wedi cadw llawer o'r glaw a ddisgynasai arno. Teimlai Gareth ei drowsus yn gwlychu drwyddo wrth iddo ymwthio dros y gwrych. Disgynnodd yn ddistaw i'r cae gyda'r gwrych yn llechwraidd. Arhosodd pan glywodd arogl wisgi.

Cododd golau bychan coch tua phum llath o'i flaen, a chryfhaodd fel y tynnai Huw yn y sigarét. Aeth yn nes ato'n araf gan dynnu ei bastwn a'i hongian gerfydd ei strap ar ei arddwrn. Tynnodd y sachyn o'i boced a'i agor led y pen.

Daeth Huw i waelod y botel wisgi, a rhegodd. Taflodd y botel i lawr y cae.

"Reit, sgrimp," meddai'n ddigon uchel i Gareth ei glywed, "mae'n bryd iti ddŵad rŵan. Tyrd i nôl dy anga."

(Trowch y dudalen)

Tynnodd unwaith yn ei sigarèt a lluchiodd hi dros ei ysgwydd. Cododd Gareth yn sydyn o'r tu ôl iddo a thaflodd y sach dros ei ben gan dynnu'r ddau ben llinyn yn dynn. Gwaeddodd Huw mewn dychryn, ond cyn iddo fedru dechrau dirnad beth a ddigwyddai yr oedd y pastwn wrth ei waith. Crafangodd Huw yn y sach i geisio'i gael i ffwrdd, ond gorfu iddo dynnu ei ddwylo'n ôl i geisio'i amddiffyn ei hun. Disgynnai'r pastwn o bob cyfeiriad, ac yn raddol fe waniodd Huw a disgyn ar ei liniau. Ni fedrai wneud dim. Clywai'r heddwas sŵn crïo yn y sach, a rhoes ei bastwn yn ôl yn ei drowsus. Amser dyrnu oedd hi'n awr. Agorodd y sach a'i dynnu i ffwrdd.

Bu tair dyrnod yn ddigon. Yr oedd fel dyrnu sachaid o goed tân. Ni fedrai Huw godi ei freichiau i'w amddiffyn

(Trowch y dudalen)

ei hun, dim ond aros dan siglo ar ei liniau. Arhosodd Gareth i gael ei wynt ato, a disgynnodd Huw ar ei wyneb i'r ddaear, a llonyddodd. Nid oedd bwrpas yn y byd dyrnu rhagor arno.

Ar ôl cael ei wynt ato, aeth Gareth at Huw a chododd ei ben. Yr oedd arno ofn iddo daflu i fyny a mygu yn hwnnw. Un peth oedd cwrban, peth hollol wahanol oedd dynladdiad. Ceisiodd ei godi. Yr oedd y llabwst diymadferth yn pwyso tunelli, a chafodd Gareth drafferth i'w gael ar ei liniau. Llwyddodd o'r diwedd, a phlygodd ben Huw i lawr. Gafaelodd yn llaw Huw a stwffiodd ei fys i ben draw ei geg. Yr oedd yr adwaith yn syth ac yn sydyn, a chwydodd Huw ei berfedd. Daliai Gareth ef a golwg ddiflas ar ei wyneb. Pan droes y chwydu'n gyfog gwag, rhoes hergwd i Huw ar lawr a'i adael yno.

(Trowch y dudalen)

# I BLE'R AETH HAUL Y BORE? – EIRUG WYN

**5. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a defnyddio enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.**
**(Ystyriwch y marciau a roddir i bob cwestiwn.)**

**5.1 Nodwch 3 pheth sy'n cysylltu Quanah â Haul y Bore. [3 marc]**

**5.2 Nodwch 3 pheth mae'r Cotiau Glas yn eu gwneud er mwyn gorfodi'r Indiaid i fynd i'r Bosque. [3 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

**5.3 Ysgrifennwch hanes Carson yn dianc o'r carchar.**
**Esboniwch beth sy'n digwydd yn llawn.**
**Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen.**
**[10 marc]**

**5.4 Dewiswch gymeriad NAD ydych yn ei hoffi.**
**Esboniwch pam nad ydych yn hoffi'r cymeriad.**
**Ysgrifennwch BORTREAD o'r cymeriad gan roi enghreifftiau o sut mae'n ymddwyn. [6 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

**5.5 Darllenwch y darn a gymerwyd o I BLE’R AETH HAUL Y BORE? ar dudalennau 38 – 41.**

**a) Edrychwch ar arddull llinellau 4 – 5 yn y darn.**

**“Cant a hanner o aceri! Faint sy ar ôl? E? Faint sy ar ôl?”**

**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

**b) Edrychwch ar arddull llinellau 62 – 64 yn y darn.**

**“Os ydych chi’n dweud, syr!”**
**“Carson! Wyt ti’n meddwl y dôn’ nhw?”**

**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

(Trowch y dudalen)

**5.5 c)**

**Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.**

- **Dyfynnwch y nodwedd.**
- **Enwch y nodwedd.**
- **Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4 marc]**

**5.6 Ysgrifennwch ADRODDIAD PAPUR NEWYDD yn dilyn Brwydr Ffort Defiance.**
**Cofiwch sôn am ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â hyn.**
**Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen.**

**[10 marc]**

**[40 MARC]**

**(Trowch y dudalen)**

Roedd Carleton wrth ei fodd. O'r diwedd roedd pethau'n dechrau symud yn eu blaenau.

"Cant a hanner o aceri! Faint sy ar ôl? E? Faint sy ar ôl?"

"Dim, syr." Roedd ateb Carson yn syth, ac i'r pwynt. "Fydd gan y Navahos ddim grawn nac ŷd y gaea 'ma. Ar wahân i gynnyrch eu perllannau, a'r cig a gân' nhw wrth hela, fydd ganddyn nhw ddim byd i'w cynnal."

"Yipeee!"

Ond doedd Carson ddim yn rhannu brwdfrydedd ei bennaeth. Y fo oedd wedi awgrymu llosgi'r cnydau. Gwyddai yn ei galon na ellid ennill brwydr yn erbyn y Navahos yng Ngheunant de Chelley. Roedd rhannau o'r Ceunant yn codi'n waliau hyd at fil o droedfeddi o uchder, ac mewn mannau yn culhau i ychydig ddegau

(Trowch y dudalen)

o lathenni. Roedd yna ddegau o ogofâu ar y clogwyni. Petai'r Navahos yn dymuno hynny, gallent wrthsefyll byddin o rai cannoedd trwy osod gwylwyr gyda chreigiau a cherrig ar y waliau hynny a gallent ddal eu tir efallai am fisoedd ar y tro. Ond roedd hynny'n dibynnu ar gael digon o gynhaliaeth yn y Ceunant. Rŵan roedd stôr y gaeaf wedi diflannu ar un amrantiad. Gwyddai Carson y byddai'r ricos yn sicr o daro'n ôl a hynny'n galed.

"Fyddwn i ddim yn llawenhau yn rhy fuan, syr. Fe fydd yna hen ddial am hyn, ac fe ddaw yn gyflym."

"Ond fydd ganddyn nhw ddim bwyd dros y gaea! Bydd rhaid iddyn nhw ddod i mewn!"

"Neu… " Oedodd Carson cyn cwblhau'i frawddeg.

"Neu be?"

(Trowch y dudalen)

“Dwyn, syr.”

“Dwyn! O ble wnân nhw ddwyn? Ble o fewn cyrraedd i Geunant de Chelley mae yna ddigon o fwyd i fwydo llwyth cyfan?” Chwarddodd Carleton yn ei wyneb.

Daliodd Carson i edrych i fyw ei lygaid. Nid atebodd ei gwestiwn. Roedd Carleton yn dwp os nad oedd o wedi sylweddoli’r ateb. Yna gwawriodd yr ateb hwnnw arno.

“Yma? Wyt ti’n meddwl y dôn’ nhw yma?”

“Does dim sy’n gwneud i Indiad ymladd yn fwy na’r awch i’w fwydo’i hun a’i deulu.”

“Feiddian nhw ddim!”

“Os ydych chi’n dweud, syr!”

“Carson! Wyt ti’n meddwl y dôn’ nhw?”

“Fe fydd y llosgi wedi’u corddi nhw, syr. A rŵan yn ogystal â’r Navahos,

(Trowch y dudalen)

fe fydd Geronimo a Cochise yn ddraenen ychwanegol yn ein hystlys, ac i Dicks y mae'r diolch am hynny!" Oedodd ennyd i'w ergyd gyrraedd ei nod cyn mynd rhagddo. "Roedd llosgi'u cynhaeaf yn weithred fawr yn eu herbyn, felly fe fyddan nhw'n chwilio am weithred fawr i dalu'r pwyth yn ôl."

"Ac rwyt ti'n credu mai ymosod ar y Ffort a wnân nhw?"

"Pwy a ŵyr be wnân nhw, syr? Indiaid ydyn nhw – yr unig beth ydi, y tro hwn, maen nhw'n wahanol."

"Yn wahanol? Be ti'n 'i feddwl?"

"Rwan, maen nhw'n Indiaid sy wedi gwylltio, syr."

(Trowch y dudalen)

# LLYFR GLAS NEBO – MANON STEFFAN ROS

**6.** **Atebwch y cwestiynau sy’n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu’n bwrpasol a defnyddio enghreifftiau penodol o’r nofel i gefnogi eich atebion.**
**(Ystyriwch y marciau a roddir i bob cwestiwn.)**

**6.1** **Nodwch 3 pheth sy’n cysylltu David Thorpe â Rowenna. [3 marc]**

**6.2** **Nodwch 3 ffordd y mae’r Terfyn yn effeithio ar fywydau Rowenna a Siôn. [3 marc]**

(Trowch y dudalen)

**6.3** **Ysgrifennwch hanes Rowenna a Siôn yn claddu Dwynwen Greta.**
**Esboniwch beth sy’n digwydd yn llawn.**
**Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen.**
**[10 marc]**

**6.4** **Dewiswch gymeriad NAD ydych yn ei hoffi.**
**Esboniwch pam nad ydych yn hoffi’r cymeriad.**
**Ysgrifennwch BORTREAD o’r cymeriad gan roi enghreifftiau o sut mae’n ymddwyn.** **[6 marc]**

(Trowch y dudalen)

**6.5 Darllenwch y darn a gymerwyd o LLYFR GLAS NEBO ar dudalennau 46 – 49.**

**a) Edrychwch ar arddull y rhan hon o linellau 5 – 7 yn y darn.**

**…fflach fach o wyrdd golau, seren fach yn nhywyllwch llaith y pridd.**

**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

**b) Edrychwch ar arddull llinell 16 yn y darn.**

**“Mam! Mam! Mae o wedi digwydd!”**

**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

(Trowch y dudalen)

**6.5 c)**

**Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.**

- **Dyfynnwch y nodwedd.**
- **Enwch y nodwedd.**
- **Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4 marc]**

**6.6 Ysgrifennwch ADRODDIAD PAPUR NEWYDD yn dilyn Y Terfyn.**
**Cofiwch sôn am ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â hyn.**
**Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen.**
**[10 marc]**

**[40 MARC]**

**(Trowch y dudalen)**

Yna, un bore, ar ôl cwpwl o wythnosau o ddyfrio a gwylio a dymuno, roedd ’na rywbeth yna. Rhyw gyrlen fach, fach o fywyd yn mentro bodoli, fflach fach o wyrdd golau, seren fach yn nhywyllwch llaith y pridd.

Dechrau rhywbeth.

Teimlais y wefr yn goleuo pob un rhan ohona i – balchder a llawenydd, a’r wyrth fy mod i, rywsut, wedi bod yn rhan o wneud i hyn ddigwydd. Y peth bendigedig yma. Dyma fi’n rhedeg i fyny’r grisiau at Mam, a’i hysgwyd hi.

‘Mam! Mam! Mae o wedi digwydd!’

Eisteddodd Mam i fyny ar ei hunion, heb roi amser iddi hi ei hun ddeffro yn iawn. ‘Be?’ gofynnodd, fel taswn i wedi deud rhywbeth mawr.

‘Yn y twnnel tyfu! Mae ’na foron yn tyfu! Go iawn!’

(Trowch y dudalen)

Ochneidiodd Mam yn uchel, a gorwedd yn ôl. Yna, trodd ataf i gyda gwên fawr, a deud, ‘Wel. Ma hynny yn newyddion da. Da iawn chdi, ’raur.’

Dwi’n siŵr i mi ista yna drwy’r dydd, yn gwylio’r smotyn bach o wyrdd i weld beth oedd yn mynd i ddigwydd nesa. Daeth Mam â chadair allan i mi yn y diwedd, a blanced, er ei bod hi’n gynnes o hyd yn y twnnel tyfu. O fewn wythnos, roedd ’na resi o blanhigion bach, bach yn gwthio eu ffordd drwy’r pridd, a minna’n eu gwarchod nhw fel tasa…

Wel. O’n i’n mynd i sgwennu ‘fel tasa’n bywyda ni’n dibynnu arnyn nhw’, ond mae hynny’n wir, wrth gwrs. Dwi ddim yn meddwl ’mod i wedi sylweddoli hynny ar y pryd.

Mynnodd y planhigion fyw, drwy’r stormydd a’r gwyntoedd a’r glaw, drwy’r dyddia pan oedd Mam a finna’n

(Trowch y dudalen)

rhy sâl i fynd allan i’w dyfrio a’u tendio nhw. Byddwn i’n siarad efo nhw, wrth gwrs, am ’mod i’n licio siarad a ’mod i’n teimlo fel tad iddyn nhw i gyd, mewn rhyw ffordd wirion.

A dyma i chi rywbeth arall. Ro’n i’n teimlo’n euog pan ddaeth hi i fedi’r cnydau. Codi’r tatws a’r moron o’r pridd, golchi’r baw i ffwrdd yn y nant, cymryd y gyllell fawr atyn nhw. Roedd y planhigion bach yna wedi cymryd mor hir i dyfu, wedi mynnu byw pan oedd gymaint o bethau’n marw. Ro’n i’n eu caru nhw, a do’n i ddim am gael eu gwared nhw.

‘O’n i’n meddwl ’sat ti’n hapus i fod yn cael bwyta’r tatws cyntaf o’r ardd!’ meddai Mam wrth i ni sefyll yn y twnnel tyfu un pnawn, y fforch yn barod i godi’r tatws cyntaf. ‘Chdi dyfodd nhw, wedi’r cyfan. Ti ’di neud yn grêt, Sionyn.’

(Trowch y dudalen)

Llyncais a llyncais a llyncais, gan wneud fy ngorau i beidio crio. Do’n i ddim eisiau cyfaddef i Mam, ddim eisiau colli dagrau dros beth y gwyddwn ei fod o mor wirion.

Suddodd Mam i lawr ar ei chwrcwd, a mwytho fy wyneb yn ysgafn. Roedd hi’n arogli fel y mintys yn yr ardd.

‘Mae o’n anodd, mae’n siŵr. Eu bwyta nhw ar ôl i ti weithio mor galed i’w cadw nhw’n fyw.’

Nodiais, gan wybod y byswn i’n crio petawn i’n trio siarad.

**DIWEDD Y PAPUR**